

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, Y GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL**

TÎM COMISIYNU

Adroddiad Monitro Contractau

Enw/Cyfeiriad y darparwr: Bryncelyn, Nelson

**Dyddiad/Amser yr ymweliad: Dydd Gwener 26 Ionawr 2018 am 10:00 a.m.
Dydd Mercher 7 Mawrth am 10:30 a.m.**

Swyddog(ion) Ymweld: Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau

**Yn bresennol yn y cartref: Caitlyn Smythers, Collett Thomas, Carol Tilley a
Lisa Prosser**

Yn bresennol yn y swyddfa: Sharon Bucknell, Dirprwy Reolwr, PRESS

1 Cefndir

- 1.1 Cartref preswyl i unigolion ag anableddau dysgu yw Bryncelyn, sydd o dan berchnogaeth a rheolaeth PRESS, sy'n ddarparwyr cofrestredig o fewn bwrdeistref Caerffili.
- 1.2 Byngalo mawr ar ei ben ei hun yw Bryncelyn. Mae ganddo ystafell wydr fawr a gardd fawr lle gall y preswylwyr eistedd os yw'r tywydd yn caniatáu. Mae'r cartref wedi'i leoli ym mhentref Nelson, gyda llawer o gyfleusterau lleol.
- 1.3 Mae cofrestru Bryncelyn yn cynnwys tri o oedolion iau (18-64 oed) gydag anabledd dysgu. Ar adeg yr ymweliad, roedd tri o breswylwyr, un wedi'i ariannu gan Flaenau Gwent, un wedi'i ariannu gan Gaerffili ac un, lleoliad dros dro, wedi'i ariannu gan Gaerdydd.
- 1.4 Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2017 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2017. Ni nodwyd unrhyw hysbysiadau diffyg cydymffurfio; fodd bynnag, cofnodwyd pum argymhelliad fel rhan o'r arolygiad.
- 1.5 Nid yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Derbyniwyd 3 o geisiadau am gyngor diogelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; fodd bynnag, ni aethpwyd â'r materion hynny ymhellach.
- 1.6 Fel rhan o'r ymweliad, roedd y swyddog monitro yn gallu cwrdd â'r Dirprwy Reolwr ac roedd pedwar aelod o staff yn bresennol yn ystod yr ymweliad cartref.
- 1.7 Gan ddibynnu ar y canfyddiadau yn yr adroddiad, bydd y camau unioni a datblygu yn cael eu rhoi i'r darparwr eu cwblhau. Y camau unioni yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (fel y'u rheolir gan ddeddfwriaeth) a'r camau datblygu yw'r argymhellion arfer da.

2 Argymhellion blaenorol

2.1 Camau Unioni/datblygu

2.1.2 Dim wedi'i gofnodi.

3 Canfyddiadau

3.1 Cynlluniau Gwasanaeth

3.1.1 Caiff yr holl ffeiliau sy'n ymwneud ag unigolion sy'n byw ym Mryncelyn eu storio'n ddiogel. Yn ystod yr ymweliad monitro, gwelwyd ffeil un unigolyn.

3.1.2 Roedd yn galonogol gweld bod y Cynllun Gwasanaeth wedi'i ysgrifennu yn unol â'r Cynllun Gofal a ddyfeisiwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.1.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn canolbwyntio ar y person ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl iawn o ran hoff / cas bethau'r unigolyn, pa gefnogaeth a chymorth sydd eu hangen, beth i fod yn ymwybodol ohono, sut mae unigolyn yn cyfathrebu, gofal personol ac ati.

3.1.4 Roedd ffeil unigolyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl pe byddai'r person yn gorfod mwyn i'r ysbyty. Mae'r wybodaeth yn cael ei chofnodi o dan 3 chategori lliw, ee Coch ar gyfer meddyg teulu, perthynas agosaf, alergeddau, hanes meddygol a chyfathrebu; Mae Melyn yn cynnwys materion synhwyrdd, bwyta/yfed, symudedd ac ati. Mae'r wybodaeth Gwyrdd yn cynnwys mwy o wybodaeth bersonol. Mae wedi'i anelu at fod yn "gipolwg" sy'n rhoi trosolwg cyflym, ond manwl, o'r preswlydd.

3.2 Asesiadau Risg

3.2.1 Roedd Asesiadau Risg priodol yn eu lle ar gyfer y meysydd risg a nodwyd, fel Ymdrin â Chodi Pethau Trwm, Reiliau Gwely, Peryglon Amgylcheddol, sialensiau ymddygiad, gwneud diodydd poeth etc. Adolygwyd Asesiadau Risg yn flynyddol ac mae'n rhaid i'r holl staff lofnodi/dyddio'r asesiad er mwyn profi eu bod yn gyfredol gydag unrhyw wybodaeth newydd a amlygwyd fel rhan o'r broses adolygu.

3.3 Dogfennau eraill

3.3.1 Wrth edrych ar y ffeil, nodwyd nad oedd y Daflen Arsylwi Gofal ac Ymddygiad Personol wedi'i chwblhau yn ddydiol, gyda'r cofnod olaf ar 18.01.18. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr aelodau nesaf o staff sy'n dechrau shifft. Dylai'r daflen gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw bryderon a nodwyd yn ystod y dydd.

3.3.2 Roedd yn amlwg fod y staff yn wybodus ynglŷn â sut i wneud atgyfeiriadau priodol i weithwyr proffesiynol, ee Nyrs Ardal, Meddyg Teulu, triniaeth traed.

3.3.3 Mae rhestrau gwirio cadeiriau olwyn yn cael eu cwblhau bob dydd a'u llofnodi a'u dyddio gan y gweithiwr cymorth sy'n ymgymryd â'r gwiriadau priodol.

- 3.3.4 Caiff gofal y geg ei wirio 2-3 gwaith bob dydd a bydd gweithwyr cymorth yn llofnodi ac yn dyddio pan fydd gofal y geg yn cael ei wneud.
- 3.4 Dulliau Gofal
- 3.4.1 Does gan un unigolyn ddim cysylltiadau teuluol; felly, gwneir penderfyniadau gyda'r unigolyn a gofynnir am farn a safbwyntiau'r unigolyn hynny. Er bod gan ail breswlydd gysylltiadau teuluol ac yr ymgynghorir â chynrychiolydd o'r teulu, rhoddir ystyriaeth hefyd i farn a safbwyntiau'r unigolyn hefyd.
- 3.4.2 Gall y ddau unigolyn ddangos yr hyn maen nhw'n ei hoffi/yn ei gasáu. Er bod un unigolyn yn mwynhau bwyta prydau yn/tu allan i'r cartref, mae staff yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynnal cyn amser bwyd.
- 3.5 Cwynion a chanmoliaeth
- 3.5.1 Gwelodd y swyddog monitro y llyfr cwynion sy'n cael ei gadw'n y cartref a gwelwyd nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u nodi ers 1 Medi 2016.
- 3.5.2 Mae Mr Smothers, y rheolwr, yn goruchwyllo unrhyw gwynion y mae'r cartref yn eu derbyn. Mae'r llyfrau'n cael eu harchwilio bob dau fis ac mae rheolwr y cartref yn ymwybodol o unrhyw gwyn a dderbynnir.
- 3.5.3 Pan dderbynnir cwynion, cânt eu hymchwilio a'u hateb yn ysgrifenedig neu dros y ffôn, gan ddibynnu ar ddewis y sawl sy'n cwyno. Hysbysir y staff am y gwyn a gallant fod yn rhan o unrhyw ymchwiliad angenrheidiol.
- 3.5.4 Pe byddai unigolion angen cymorth gwasanaeth eirioli, gellir cael mynediad iddo ac mae taflenni ar gael yn y cartref.
- 3.6 Sicrhau Ansawdd
- 3.6.1 Derbynnir adborth unigol yn anffurfiol oherwydd nifer isel yr unigolion sy'n byw yn yr adeilad. Felly, ar adeg yr ymweliad, dywedwyd wrth y swyddog ymweld bod y gwaith o gael proses Sicrhau Ansawdd ffurfiol yn dal i fynd rhagddo.
- 3.7 Hyfforddiant
- 3.7.1 Mae PRESS yn cyflogi systemau cynefino sy'n seiliedig ar Fframwaith Cynefino Cyngor Gofal Cymru ar Ofal Cymdeithasol.
- 3.7.2 Gwerthusir hyfforddiant staff gan y Dirprwy Reolwr sy'n monitro aelodau staff ac yn arsylwi ar eu harferion. Derbynnir adborth gan unigolion mewn perthynas â'r cyrsiau hyfforddi y maent wedi'u mynychu
- 3.7.3 Cafodd y matrices hyfforddiant ei weld gan y swyddog ymweld. Mae'r matrices yn amlinellu'n glir pa gyrsiau a fynychwyd ac ar ba ddyddiad a pha ddyddiad sydd angen adnewyddu'r dystysgrif.
- 3.7.4 Bydd staff hefyd yn ymgymryd â hyfforddiant priodol nad yw'n orfodol, yn dibynnu ar anghenion unigolion.

3.8 Goruchwyliaeth ac arfarnu

3.8.1 Edrychwyd ar y matrices goruchwyllo a chynhelir proses oruchwyllo ffurfiol bob 6 mis a phroses interim bob 2 fis. Mae pob goruchwyliaeth yn 1:1.

3.8.2 Mae'r matrices hefyd yn cofnodi'r arfarniadau blynyddol.

3.9 Staffio

3.9.1 Dim ond un aelod o staff sydd wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd bod yr unigolyn wedi dewis dod â'i chyflogaeth i ben ar ôl cyfnod mamolaeth.

3.9.2 Mae un aelod newydd o staff wedi'i recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid oes unrhyw aelodau o staff ar absenoldeb salwch hir-dymor ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw weithwyr asiantaeth yn cael eu cyflogi yn y cartref.

3.9.3 Nid yw staff fel arfer yn gweithio dros 40 awr yr wythnos. Ni chafwyd unrhyw faterion disgyblu yn ystod y 12 mis diwethaf.

3.9.4 Wrth edrych ar ffeiliau 3 aelod o staff, nododd y swyddog ymweld luniau o gardiau adnabod, DBS cyfredol ar gyfer y tri, hanes cyflogaeth llawn a chopïau o gofnodion hyfforddi perthnasol.

3.9.5 Gyda ffeil un aelod o staff, nodwyd mai un geirda oedd yno, yn hytrach na'r ddau angenrheidiol.

3.10 Diddordebau/gweithgareddau

3.10.1 Nid oes amserlen ar gyfer gweithgareddau penodol gan fod unigolion yn gallu cyfathrebu pa weithgaredd yr hoffent ei wneud bob dydd. Mae gan y staff fynediad i gerbyd, ac felly, maent yn hyblyg yn eu ffordd o ddarparu ysgogiad ac ymgysylltiad.

3.10.2 Mae un unigolyn yn mwynhau edrych ar gylchgronau a siopa yn gyffredinol ac felly mae staff yn hapus i gefnogi'r unigolyn yn y gymuned er mwyn prynu eitemau o'u dewis nhw.

3.10.3 Mae unigolyn arall yn mwynhau mynd i'r pentref, ac yn arbennig, mae'n mwynhau ymweld â'r siop bapur leol a'r swyddfa bost hefyd.

3.11 Diogelwch iechyd a tân

3.11.1 Cafwyd un ddamwain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, lle'r oedd 1 o'r unigolion wedi disgyn. Gofynnwyd am driniaeth feddygol briodol a chwblhawyd y dogfennau priodol a'u hanfon at Arolygiaeth Gofal Cymru.

3.11.2 Mae'r cartref yn cael dril tân bob 3 mis.

3.12 Symudedd a Chymhorthion

- 3.12.1 Amlinellir yr holl offer a ddefnyddir gan unigolion sy'n byw yn y cartref o fewn y wybodaeth i ysbytai a hefyd o fewn y Cynllun Gwasanaeth. Mae cyfarpar yn cael eu harchwilio bob 6 mis neu yn ôl yr angen. Ar gyfer y cadeiriau olwyn sy'n cael eu defnyddio, mae'r ddau yn cynnwys platiau traed.
- 3.12.2 Mae gan y cartref ei gerbyd ei hun a bydd y staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd, ee olew, teiars.
- 3.13 Amgylchedd y cartref
- 3.13.1 Ar 28 Hydref 2016, dyfarnwyd gwobr hylendid bwyd lefel 4 i Bryncelyn, sy'n sgôr 'dda'.
- 3.13.2 Gwelwyd bod y cartref yn lân ac yn daclus, heb unrhyw beryglon a dim arogl gwael.
- 3.13.3 Hysbyswyd y swyddog monitro bod ystafell un unigolyn wedi'i addurno yn ddiweddar yn y lliw a ddewiswyd gan yr unigolyn. Mae ystafell arall yn y broses o gael ei haddurno, ac eto, yr unigolyn sydd wedi dewis y lliw.
- 3.13.4 Mae'r ystafelloedd wedi'u haddurno yn ôl chwaeth yr unigolyn ac yn cael eu haddasu gydag eitemau personol fel ffotograffau, lluniau ac addurniadau.
- 3.13.5 Wrth sylwi ar yr ystafelloedd eraill, teimlai'r swyddog monitro y byddai'r ystafell ymolchi yn elwa o gael ei haddurno a'i gwneud i deimlo'n fwy cartrefol. Teimlwyd hefyd y byddai'r lolfa yn elwa o gael ei hailaddurno gan fod fframiau'r drysau wedi'u marcio'n go wael.
- 3.14 Maeth
- 3.14.1 Er mwyn penderfynu pa brydau y mae'r unigolion yn eu bwyta, mae'r preswylwyr yn cymryd rhan mewn trafodaeth ac mae ganddynt rôl weithredol wrth benderfynu ar eu bwydlen.
- 3.14.2 Rhoddir ystyriaeth i ofynion dietegol arbenigol gan fod un unigolyn yn ddiabetig, tra bod un arall yn ofalus o'u pwysau ac felly, mae'r bwyd sydd â siwgr ynddo yn cael ei fonitro yn ogystal â maint y pryd.
- 3.14.3 Mae un unigolyn yn mwynhau prynu bwyd a hefyd paratoi'r prydau.
- 3.14.4 Wrth edrych ar y cofnod dietegol dyddiol, roedd yn amlwg bod y prydau a ddarparwyd yn faethlon ac yn gytbwys.
- 3.15 Arsylwadau Cyffredinol
- 3.15.1 Ar ôl cyrraedd, cafodd y swyddog monitro groeso cwrtais gan weithiwr cymorth ac fe'i cyflwynwyd i ddau o breswylwyr oedd wedi codi. Roedd un o'r preswylwyr yn eistedd yn y lolfa ac yn cymryd rhan mewn sgwrs gyda staff, ac roedd un arall yn ardal y gegin, yn paratoi ar gyfer apwyntiad.
- 3.15.2 Roedd yn galonogol gweld a chlywed y staff yn ymgysylltu â'r preswylwyr. Roedd un unigolyn yn paratoi ar gyfer apwyntiad ac nid oedd yn siŵr a ddylid mynychu ai peidio. Tra bod un gweithiwr cymorth yn cynorthwyo gyda gwallt unigolyn, roedd un

arall yn siarad â'r Gweithiwr Cymdeithasol ac yn rhoi sicrwydd i'r unigolyn drwy ddweud nad oedd hi'n angenrheidiol iddi fynychu'r cyfarfod, os nad oedd hi'n teimlo fel gwneud hynny. Roedd yn galonogol clywed bod unigolyn yn cael dewis. Dewisodd yr unigolyn i fynychu'r cyfarfod ac roedd yn hapus i fynychu gyda help y gweithiwr cymorth.

3.15.3 Cynhyrfodd y preswlydd yn y lolfa fod y preswlydd arall wedi mynd allan yn y car, ac felly, roedd yn galonogol gweld aelod o staff yn cynnig mynd â'r unigolyn i mewn i'r pentref er mwyn iddyn nhw ymweld â'r siop bapur a'r swyddfa bost. Tra'n sgwrsio â'r preswlydd yn ddiweddarach, dywedwyd wrth y swyddog monitro bod hwn yn rhywbeth y mae'r unigolyn yn hoffi ei wneud.

3.16 Cwestiynau staff

3.16.1 Siaradwyd ag un aelod o staff a dywedodd wrth y swyddog monitro bod staff yn cael eu hysbysu ar lafar am unrhyw newidiadau i'r cynlluniau gofal, cynlluniau gwasanaeth, asesiadau risg ac ati. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu drwy sesiynau trosglwyddo, cyfarfodydd tîm a'r bwrdd memo. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw wybodaeth newydd ynglŷn ag unigolyn yn cael ei rhannu'n briodol.

3.16.2 Mae'r cartref yn gweithredu system gweithiwr allweddol ac mae gan bob gweithiwr allweddol gyfrifoldeb i sicrhau bod apwyntiadau iechyd yn cael eu cadw a bod gweithgareddau yn cael eu cynnal. Dylai gweithiwr allweddol gynnig cefnogaeth a chymorth os oes gan unigolyn bryder neu broblem.

3.16.3 Dywedodd yr aelod staff eu bod yn cael eu hysbysu ac yr ymgynghorir â nhw ynglŷn â'r ffordd y caiff y cartref ei redeg a bod pobl yn gwrandao arnyn nhw os oes ganddynt unrhyw awgrymiadau neu argymhellion i wella'r gwasanaeth.

3.16.4 Mae staff yn gallu nodi eu gofynion hyfforddiant eu hunain, ac fel arfer, maen nhw'n cael mynediad i raglenni hyfforddi drwy hwyluswyr mewnol neu Dîm Datblygu Gweithlu'r Awdurdod Lleol.

3.17 Cwestiynau'r rheolwr

3.17.1 Roedd Rheolwr Bryncelyn yn hyderus wrth esbonio pa gamau fyddai'n cael eu cymryd pe byddai hi'n amau unrhyw gamdriniaeth. Roedd hi'n ymwybodol o sut i ddiogelu unigolion a hefyd diogelu'r staff sy'n cynnig cymorth yn y cartref.

3.17.2 Roedd y Dirprwy Reolwr yn gallu dweud beth roedd yr unigolion yn eu hoffi ac eisiau drwy drafod â nhw. Mae cyfranogiad cymunedol yn cael ei annog drwy fynd â'r unigolion allan cymaint â phosib, gan fod y ddau yn mwynhau ymweld â chanol y pentref.

3.17.3 Eglurodd y Dirprwy Reolwr bod rhai o'r preswylwyr yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio aelodau staff. Ar gyfer ei phenodiad ei hun, fe'i cyflwynwyd i drigolion Bryncelyn, ac hyd heddiw, mae un unigolyn yn dweud wrthi mai fe roddodd y swydd iddi!

3.18 Cwestiynau preswylwyr

- 3.18.1 Siaradodd y swyddog monitro â'r tri phreswilydd yn ystod yr ymweliad.
- 3.18.2 Roedd y ddau breswilydd parhaol yn hapus i gael sgwrs gyffredinol gyda'r swyddog monitro, gyda'r preswilydd gwrywaidd yn fwy na pharod i sgwrsio am fywyd ym Mryncelyn
- 3.18.3 Roedd y preswilydd gwrywaidd yn falch o ddweud ei fod yn hapus yn byw ym Mryncelyn, lle nad oedd yn hapus yn y lleoliad blaenorol. Mynegodd ei dristwch ar ôl iddo golli ffrind, ond roedd yn awyddus i ddweud ei fod wedi derbyn cadair olwyn newydd a'i fod yn mwynhau cael mynediad i'r gymuned.
- 3.18.4 Roedd yn awyddus i sgwrsio am y gemau rygbi oedd ar y gweill a'r anrheg Nadolig a brynodd i'w gyd-breswilydd.
- 3.18.5 Gwelwyd bod y ddau breswilydd yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd a bod staff y cartref yn gofalu amdanyn nhw ac yn eu cefnogi'n dda.

4 **Camau i Unioni a Datblygu**

4.1 Unioni

- 4.1.2 Ar gyfer holl aelodau staff sydd newydd gael eu penodi, bydd 2 geirda yn cael eu cadw ar ffeil (NMS 22.2) **Amserlen:** Parhaus
- 4.1.3 Tafleddi Arsylwi Gofal ac Ymddygiad Personol i'w cwblhau bob dydd (NMS 12.3) **Amserlen:** Yn syth a pharhaus

4.2 Camau Datblygu

- 4.2.1 Er bod ystafelloedd gwely unigol yn cael eu hailaddurno ar hyn o bryd, dylid ystyried addurno'r lolfa a'r ystafell ymolchi. *Trafodwyd gyda Rheolwr y cartref, a dywedodd ei bod hi'n fwriad i addurno'r lolfa.*

5 **Casgliadau**

- 5.1 Mae Bryncelyn yn cynnig amgylchedd cartrefol i'r preswylwyr ac mae'r staff yn wybodus am yr unigolion sy'n byw yno; yn gwybod eu hoff/gas bethau, sut i ymdrin ag unigolion mewn hwyliau gwahanol ac ati.
- 5.2 O ddydd i ddydd, mae'r preswylwyr yn dewis pa weithgareddau maen nhw'n dymuno eu gwneud ac a ydynt am fynd allan ai peidio. Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r unigolion wrth galon pethau, ac mae'r ddau unigolyn fu'n sgwrsio yn byw yn hapus iawn ym Mryncelyn, gan fod ganddyn nhw berthynas dda gyda'r staff sy'n eu cefnogi.
- 5.3 Bydd monitro rheolaidd yn parhau a hoffai'r swyddog monitro ddiolch i bawb am eu hamser, y wybodaeth a rannwyd a'r lletygarwch a ddangoswyd yn ystod yr ymweliad.

Awdur: Caroline Roberts

Swydd: Swyddog Monitro Contractau

Dyddiad: 19eg Mawrth 2018

Sylwer. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd o ofyn amdanyn nhw.